



Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint 11



FFORWM MYNEDIAD LLEOL SIR Y FFLINT

Cofnodion- 19 Ionawr 2026

Parc Gweptra, Ystafell yr Ardd, Cei Connah.

Aelodau – Julian Pellatt, John Holiday, Jeff Shone, Huw Morgan, Cyngorydd Dave Evans, Miranda Dechazal

Arsylwyr – Kieren Barlow, Ant Tomlinson.

Swyddogion yn bresennol - Tom Woodall, Derrick Charlton, Adrian Hibbert, Suzanne Williams, Jon Hill, Stuart Jones, Natalie Davies, Isobel Smith.

Ymddiheuriadau – Marjorie Thomson, Ed Swan, Alan Neale, Shirley Fermor.

1/ Croeso -

Croesawodd JP bawb i 11eg cyfarfod y Fforwm Mynediad Lleol. Cafwyd cyflwyniadau gan bawb a oedd yn bresennol a derbyniwyd ymddiheuriadau.

Croesawodd JP y siaradwr gwadd, Isobel Smith.

2/ Cofnodion y cyfarfod blaenorol -

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Hydref wedi'u hysgrifennu.

a. Materion yn Codi

Cadarnhaodd TW ei fod wedi anfon llythyr i'r Prif Swyddog, Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth i ddiolch i Lee Shone am y cyflwyniad a roddodd i'r Fforwm yn y cyfarfod diwethaf, a gofyn am ymgynghori â'r Fforwm ar gyfer unrhyw fentrau mynediad yn y dyfodol. Tynnodd TW sylw at y rhwystr teithio llesol presennol; <https://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Consultation-and-Engagement/Open/Consultation-local-cycle-network-barriers.aspx>

Cadarnhaodd TW hefyd ei fod wedi anfon llythyr ar ran y Fforwm i ymateb i'r ymgynghoriad statudol am y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig. Fe ychwanegodd fod ymateb y Fforwm wedi cael ei anfon at Brif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor hefyd, i roi cyngor i'r Awdurdod wrth ystyried ei ymateb i'r ymgynghoriad. Rhoddodd TW grynoded o sefyllfa a safle terfynol Sir y Fflint, ac yn sgil diffyg gwybodaeth fanwl, nid oedd Sir y Fflint yn gallu cefnogi'r cynnig.



Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint 11



Fe ychwanegodd TW fod bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi adolygu'r dystiolaeth a chanfyddiadau'r ymgynghoriad ar 12 Ionawr, a chytunodd i wneud y gorchymyn dynodi.

Mae Sir y Fflint wrthi'n ystyried y penderfyniad.

3/ Y wybodaeth ddiweddaraf am Lwybr Arfordir Sir y Fflint – Y Gronfa Ffyniant Gyffredin, Gwelliannau Mynediad -

Cyflwyniad am y wybodaeth ddiweddaraf oedd hwn am y gwaith a wnaed dros y 2 flynedd ddiwethaf drwy grant y Gronfa Ffyniant Gyffredin, ac roedd yn amlygu'r gwaith a wnaed ar Lwybr Arfordir Sir y Fflint, e.e. cael gwared ar rwystrau fframiau 'A', llwybr pren newydd ar draeth Talacre, gwelliannau i Ddoc Maes Glas, gwelliannau i lwybr ym Mettisfield, Saltney, astudiaeth ddichonoldeb Cei Connah, Bridge Street, Shotton. Dywedodd IS fod gwerthusiad o effaith ar ymwelwyr yn Nhalacre ac astudiaethau dichonoldeb eraill wedi'u cynnal.

Gofynnodd DE am weddillion cychod ym Maes Glas a Bagillt, ac a fyddant yn cael eu symud? Cadarnhaodd IS ein bod wedi symud 22 o gychod ond dywedodd fod mwy o gychod wedi dychwelyd.

Dywedodd DE pan mae o'n gyrru heibio pont droed Saltney Ferry mae yna faes parcio bychan ond mae'n pryderu nad oes gan y ceir sydd yn parcio yno reseli beiciau ac mae o eisiau gwybod i ble mae pobl yn mynd. Dywedodd TW ei bod hi werth ffeindio allan.

Gofynnodd JS am gysylltiad rhwng Bwcle ac ardaloedd eraill. Dywedodd fod y cysylltiadau yn ddrwg iawn. Gofynnodd a oes yna unrhyw brosiectau yn symud ymlaen ac y gallai rheilffyrdd segur fod yn ddatrysiad, ac fe allai llwybr Pinfold ger yr A55 fod wedi bod yn gyfle.

Cytunodd JH fod yna ddiffyg mynediad rhwng yr Wyddgrug a Bwcle a Bwcle a Glannau Dyfrdwy. Mae angen i ni annog pobl i ddefnyddio cerbydau eraill heblaw am gerbydau modur gan fod yna wastad ddamweiniau ar yr A55.

Gofynnodd HM am ymddygiad gwrthgymdeithasol ar ôl cael gwared ar rwystrau. Dywedodd DE ei bod yn ymddangos nad oes yna unrhyw gynnydd wedi bod.

Gofynnodd JP oes gennych chi unrhyw syniad faint o bobl sy'n defnyddio llwybr yr arfordir?



Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint 11



Dywedodd IS fod gennym ffyrdd o gyfrif ar y llwybrau arfordir ond mae yna ddulliau eraill o ganfod y wybodaeth hon sy'n ystyried o ble mae pobl yn dod.

Mae yna waelodlin i weld faint o bobl sy'n ymweld â llwybr yr arfordir ym Magillt.

Dywedodd eu bod nhw'n ceisio cael arian cyfatebol i ganfod y wybodaeth hon.

4/ Y wybodaeth ddiweddaraf am Dîm Mynediad

Rhoddodd SJ drosolwg o'r gwaith a gwblhawyd yn y chwarter diwethaf a materion a gafodd eu datrys. Bydd ffigurau'n cael eu hanfon ar e-bost i aelodau ynghyd â'r cofnodion yma.

Cyflwynodd DC luniau cyn ac ar ôl y gwaith a wnaed o dan y Grant Gwella Mynediad - £75,000, ac y dylent adael i'r tîm wybod os oeddynt yn meddwl am unrhyw gynlluniau yn y dyfodol.

5/ Cwblhau tymor y Fforwm Mynediad Lleol

Fe soniodd TW am waith y Fforwm dros y flwyddyn a dywedodd pa mor braf oedd sut mae'r Fforwm wedi gweithredu dros y 3 blynedd diwethaf.

Dywedodd DE ei fod wedi ymgysylltu mwy ac yn fwy cynhyrchol nag yn y gorffennol. Mae yna botensial i fod yn fforwm da. Dywedodd y dylai Aelodau gyflwyno yr hyn yr hoffent ei weld yn y Fforwm yn y flwyddyn nesaf.

Dywedodd HW yr hoffai weld cynnydd ar faterion cysylltedd fel yr un rhwng yr Wyddgrug a Bwcle.

Dywedodd JS yr hoffai weld grwpiau tasg a gorffen o'r Fforwm yma.

Fe eglurodd TW y broses recriwtio, byddai aelod presennol yn cael ei g/wahodd i ailymuno â'r Fforwm a byddai hysbyseb ehangach i recriwtio yn mynd allan gan ofyn i aelodau ei rannu. Dywedodd y dylid ystyried pob grŵp defnyddiwr ac y dylai'r aelodaeth fod rhwng 12-22 o bobl.

Gofynnodd DC i'r Fforwm a ydynt yn hapus â 4 chyfarfod y flwyddyn.

Dywedodd JP ei fod yn meddwl fod 4 yn gywir a'i bod hi'n bwysig cael cymuned trwy gydol y flwyddyn.

Gofynnodd JB fod pob lleoliad yr ydym yn eu defnyddio ar gyfer cyfarfodydd yn hygyrch.

Dywedodd TW wrth gwrs ein bod yn ystyrllon, a dywedodd fod angen i ni ystyried bod yn ddwyieithog er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg.



Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint 11



6/ Unrhyw Fater Arall

Dywedodd HM fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r cynllun ffermio cynaliadwy, a byddai'n rhaid agor llwybrau troed i hawlio'r arian. Gallwch gael hyd i fwy o wybodaeth ar Google (Gov Wales-SMR 14).

Dywedodd MD efallai y dylid cynnal digwyddiad i helpu ffermwyr i wneud y llwybrau troed ar eu tir yn agored a hygyrch.

Gofynnodd JS pa effaith y byddai'r cynllun yma'n ei gael? Dywedodd HH y byddai yna effaith fawr gan fod yna 16,000 o hawlwr ac efallai 80% o lwybrau troed wedi'u rhwystro ar hyd a lled Cymru.

Dywedodd JP gan mai hwn fyddai ei gyfarfod olaf, fe hoffai ddiolch i Tim a'r tîm sy'n cyflawni llawer iawn gyda chyllideb mor fach. Fe hoffai hefyd ddiolch i Huw a'r holl aelodau am eu hamser. Yn y dyfodol dywedodd ei bod hi'n bwysig bod y Fforwm yn edrych ar y darlun ehangach. Dywedodd dim ond pan mae'n cynhyrchu datrysiad ymarferol y mae strategaeth yn un dda.

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill daeth y cyfarfod i ben am 12pm.